Planning, Public Protection and Countryside Services Web Query V 3 Enquiry

From :
"Gruffydd,Llyr (Aelod o'r Senedd | Member of the Senedd)" [redacted]

To : "planning@denbighshire.gov.uk" <planning@denbighshire.go
cc: :

29/07/2022 15:10

Subject : Gwrthwynebiad i gais cynllunio 01/2022/0523 Chwarel y Graig

| Assigned To: | Status: | | |
|---|---|---|---|
| Eleri Morris/EN/DCC | ○ New | ○ In Progress | ○ Ignore |
| | ○ Assigned To But Not Started | ● Dealt With | ○ Information Only |
| | Closed Date: | | |
| Action Taken: | | | |

Hoffwn fynegi fy mhryderon ynglyn a'r cais i ddatblygu ac ehangu Chwarel y Graig, Dinbych, am 22 mlynedd pellach.

Mae Polisi Cynllunio Cymru 5.14.19 yn dweud:

> **"Planning permission should not be granted in areas outside those identified in the plan except where the mineral is needed to make good a proven shortfall in supply, and where the proposal is demonstrably proven to be environmentally acceptable and to have no adverse impact on the amenity of nearby residents or communities."**

Dydi'r cais ddim yn gwneud achos digonol i ddangos fod y cynllun yn ateb galw nac yn amgylcheddol dderbyniol. Mae'n amlwg o'r 100 a mwy o negeseuon yn gwrthwynebu, gan gynnwys grwpiau a busnesau lleol, fod y gymuned yn credu y bydd impact negyddol arnynt.

Mae ymateb y Public Health Wales Environmental Public Health Team i'r cais cynllunio yn cadarnhau fod diffyg tystiolaeth ynglyn a'r niwed posibl y bydd ehangu'r chwarel yn ei gael ar safon yr aer a iechyd cyhoeddus.

> **"We have some concerns about the lack of detailed assessment regarding the impact of the quarry operations on local air quality. In our view, further assessment and data are needed to support the applicant's position that activities will not be detrimental.**
> **"There is little actual assessment of the impact on local air quality. The applicant has suggested that tree planting and creation of bunds along the site boundary will help reduce impact of dust on the local area. However, without actual data to support this, we cannot agree with this statement. We recommend that the Regulator confirm that they satisfied with this approach, or if not to recommend a more detailed air quality assessment."**

Mae'r Cyngor Sir bellach wedi cyhoeddi argyfwng amgylcheddol a hinsawdd yn 2019 a byddai ymestyn y chwarel yn golygu nad yw cynllun blaenorol y perchnogion i adfer y tir a phlannu coed am ddigwydd tan ar ol 2047 ar y cynharaf. Sut mae'r Cyngor yn cysoni hyn gyda'r argyfwng hinsawdd?

Bydd y cais cynllunio hefyd yn dinistrio tir amaeth da (BMV) ar adeg pan mae angen cynnal ein diwydiant amaethyddol a chynhyrchiant bwyd.

Bydd y cais yn dod a'r chwarel, llwch, swn a dirgryniadau yn agosach at gartrefi cannoedd o drigolion y dre – gan ychwanegu at y posiblrwydd o afiechyd yn ei sgil.

Mae busnesau cyfagos wedi gwrthwynebu ymestyn bywyd y chwarel ar sail llygredd, fydd yn amharu ar eu gallu i gynnal eu gwaith yn yr ardal.

Am y rhesymau uchod, hoffwn wrthwynebu'r cais.

Yn gywir

Llyr



**Llyr Gruffydd**
**Plaid Cymru / The Party of Wales**
AS/MS: Gogledd Cymru / North Wales

[redacted]

Dilynwch ni / Follow us

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Audit Trail

**Audit Trail**